# Gwahoddiad: Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr

Annwyl Bennaeth,

Ysgrifennwn atoch i roi gwybod i chi am gyfle ymchwil i'ch ysgol. Mae'r ymchwil yn cael ei gwneud gan ganolfan ymchwil DECIPHer ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ein hastudiaeth, sydd wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, yn canolbwyntio ar ehangu'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (y Rhwydwaith), sy'n gweithio ar hyn o bryd gyda phob ysgol gyfun a gynhelir yng Nghymru, i ysgolion cynradd. Nod y rhwydwaith yw helpu ysgolion i adnabod anghenion iechyd a llesiant eu disgyblion a chynllunio camau gweithredu i wella lles.

Hoffem wahodd eich ysgol i gymryd rhan mewn arolwg peilot o'r **Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr i holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2**, wedi'i addasu o'n harolwg i'r Rhwydwaith uwchradd, ar ddyddiad cyfleus rhwng **30 Tachwedd 2022 – 31 Mawrth 2023**. Cynhaliom arolwg tebyg yn 2019 ac eto yn 2021 gyda disgyblion Blwyddyn 6 mewn 76 o ysgolion cynradd yng Nghymru (mae ein canfyddiadau i'w gweld yma). Bydd ailadrodd hwn gyda nifer fwy o ysgolion a grwpiau iau yn rhoi cyfle unigryw i ddeall **iechyd a lles presennol disgyblion 7 i 11 oed** yng Nghymru ac archwilio **sut mae iechyd a lles disgyblion yng Nghymru wedi newid ers 2019 a 2021**. Trwy waith ymgynghori helaeth gydag athrawon, rhieni a disgyblion, rydym wedi sicrhau bod yr arolwg yn un byr a'i fod yn canolbwyntio ar bynciau y nododd athrawon ysgol, disgyblion a rhieni eu bod yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer cefnogi lles disgyblion. Byddwn yn rhoi arweiniad i athrawon oruchwylio'r arolwg ar-lein 20 munud gyda Blynyddoedd 3 i 6 yn yr ystafell ddosbarth, yn hytrach na gofyn bod ymchwilwyr yn mynd i ysgolion.

**Os byddwch yn cymryd rhan, byddwn yn gofyn i'ch ysgol:**

1. Ofyn i'ch athrawon Cyfnod Allweddol 2 (neu arweinydd priodol) gynnal arolwg byr ar iechyd a lles gyda'u dosbarthiadau Blynyddoedd 3 i 6. Dylai'r arolwg gymryd tuag 20 munud ar gyfartaledd i ddisgyblion ei gwblhau ar-lein yn yr ystafell ddosbarth. **Gellir ei wneud unrhyw bryd rhwng 30 Tachwedd 2022 – 31 Mawrth 2023, ar amser/dyddiad sy'n addas i'r ysgol.**
2. Anfon taflenni gwybodaeth i rieni at holl rieni/gwarcheidwaid disgyblion Cyfnod Allweddol 2 gyda gwybodaeth am optio allan o leiaf bythefnos cyn cynnal yr arolwg, monitro unrhyw ohebiaeth gan rieni ac eithrio unrhyw blant nad yw eu rhieni/gwarcheidwaid am iddynt gymryd rhan.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud i gefnogi'ch ysgol:**

Ar ôl cwblhau'r astudiaeth, byddwn yn rhoi adroddiad adborth pwrpasol, dienw, i'ch ysgol ar iechyd a lles y disgyblion yn eich ysgol ac ym mhob grŵp Blwyddyn (os cafwyd nifer ddigonol o ymatebion).

**Cymeradwyaeth foesegol:**

Mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd wedi

adolygu'r ymchwil hon ac wedi rhoi barn foesegol ffafriol iddi. Gallwch gysylltu â'r pwyllgor ar socsi-ethics@cardiff.ac.uk os oes gennych unrhyw ymholiadau.

**Diogelu Data:**

Bydd holl atebion y disgyblion yn gwbl ddienw gan na fydd y tîm ymchwil yn gwybod pwy sy'n cymryd rhan yn yr arolwg. Nid ydym yn casglu unrhyw wybodaeth sy'n datgelu pwy yw'r disgyblion ac ni fyddwn yn gofyn am enwau'r disgyblion ar unrhyw adeg. Bydd yr holl ddata'n cael ei gadw'n ddiogel ar weinydd y brifysgol, sydd wedi'i amddiffyn gan gyfrinair. Bydd crynodebau dienw o'r data'n cael eu cynnwys mewn adroddiadau i'ch ysgol, i awdurdodau lleol ac i Lywodraeth Cymru ac yn cael eu cyhoeddi mewn erthyglau mewn cyfnodolion gwyddonol. Caiff y data ei gadw am o leiaf 5 mlynedd, neu 2 flynedd ar ôl cyhoeddi, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Hefyd, gall data gael ei ddefnyddio gan y tîm ymchwil, neu ymchwilwyr cymeradwy eraill, at ddibenion ymchwil anfasnachol yn y dyfodol. Gall data dienw o'r arolwg gael ei gadw am gyfnod amhenodol os oes ganddo werth at ddibenion ymchwil wyddonol, er enghraifft fel y gallwn gyfuno data ag arolygon cynt, a hwyrach i ddeall newidiadau mewn lles plant dros gyfnod.

**Ymatebwch os gwelwch yn dda:**

Gobeithiwn y bydd cymryd rhan yn yr ymchwil hon o ddiddordeb i'ch ysgol, gan ein bod yn edrych ymlaen at weithio gyda chi. Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon eich penderfyniad (*Gallwn gymryd rhan; Na, ni allwn gymryd rhan*) at PrimarySHRN@cardiff.ac.uk cyn gynted ag y bydd yn gyfleus i chi.

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni.

Yn gywir,

Dr Kelly Morgan, Lianna Angel & Safia Ouerghi

Tîm Ymchwil y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion Cynradd

DECIPHer, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol | DECIPHer, School of Social Sciences
Prifysgol Caerdydd | Cardiff University
1-3 Plas yr Amgueddfa Caerdydd | 1-3 Museum Place
Caerdydd | Cardiff CF10 3BD

Dilynwch DECIPHer ar Twitter: @DECIPHerCentre | Follow DECIPHer on Twitter: @DECIPHerCentre | http://www.decipher.uk.net